Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

# Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru: Adolygiad ansoddol o'i effaith

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb o'r Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 73/2014

Prif amcanion yr adolygiad oedd deall effaith Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru ar Gymru; penderfynu a oes angen adolygu strwythur a diben FfCChC; a nodi'r swyddogaethau allweddol y gallai Fframwaith credydau a chymwysterau eu cyflawni yn y dyfodol. Cynhaliwyd y gwaith ymchwil rhwng mis Hydref 2013 a mis Mai 2014.

**Prif Ganfyddiadau**

- I lawer o randdeiliaid, mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) yn adnodd gwybodaeth pwysig sy'n darparu dealltwriaeth gyffredin o bwysigrwydd cymwysterau ac yn dangos strwythur y system gymwysterau yng Nghymru yn effeithiol. Mae'n cael ei ystyried hefyd yn adnodd galluogi ar gyfer datblygu sgiliau, cydnabod dysgu blaenorol a dilyniant dysgwyr ac ar gyfer cyfrannu at gyfleoedd dysgu gydol oes a symudedd drwy gysylltiad clir â fframweithiau eraill.
- Mae FfCChC wedi'i sefydlu'n gadarn mewn rhai sectorau, yn enwedig addysg uwch (AU) a dysgu oedolion a'r gymuned. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei ddefnyddio'n ymarferol i'r graddau a ragwelwyd oherwydd cred rhai ei fod yn gymhleth a biwrocrataidd.
- Ceir cefnogaeth gref i'r cysyniad o barhau i ddefnyddio FfCChC a'i sefydlu wrth wraidd y gwaith o gynllunio, darparu a defnyddio cymwysterau yng Nghymru. Dylai'r broses hon gael ei harwain gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth rhanddeiliaid allweddol o'r sectorau addysg a chyflogaeth yng Nghymru.

**Cefndir**

Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) yn ffurfiol yn 2002, cyn ei lansio yn 2003. Mae'r cyfnod gweithredu wedi para rhwng 2003 a 2014. Mae'n fframwaith eang sy'n ceisio egluro'r system gymwysterau yn well, ac yn cynnwys addysg uwch, cymwysterau sy'n cael eu rheoleiddio a dysgu gydol oes gyda sicrwydd ansawdd. Mae FfCChC yn dwyn ynghyd dysgu cydnabyddedig o bob math yn un fframwaith unedig. Mae'n cael ei gynllunio i fod yn fodel cynhwysol sy'n ceisio cynnwys dysgu o bob math, boed yn ddysgu ffurfiol, dysgu sy'n cael ei reoleiddio, dysgu seiliedig ar waith neu ddysgu anffurfiol a dysgu heb fod yn ffurfiol.

Mae FfCChC yn seiliedig ar bum prif nod:

- galluogi pawb i ddatblygu a chynnal sgiliau hanfodol;
- annog pobl i fod yn ddysgwyr gydol oes;
- manteisio ar y wybodaeth sydd gan fusnesau a sefydliadau addysg;
- annog busnesau a gweithwyr i feithrin sgiliau newydd;
- helpu pobl i ddatblygu sgiliau newydd yn eu cymunedau.

**Dulliau**

Cafodd dulliau'r gwaith ymchwil eu harwain gan y broses o ddatblygu fframwaith adolygu. Cynhaliwyd dau adolygiad o lenyddiaeth. Roedd y cyntaf yn cynnwys dadansoddiad eilaidd o'r llenyddiaeth bresennol yn ymwneud â rhoi FfCChC ar waith yng Nghymru. Gwnaed hyn er mwyn dod o hyd i enghreifftiau o'r effaith bosibl a'r effaith wirioneddol o ymgysylltu â FfCChC ar sefydliadau a dysgwyr ledled y sectorau addysg a chyflogaeth. Roedd yr ail yn canolbwyntio ar bolisïau ac arferion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol mewn ardaloedd eraill o'r byd er mwyn nodi arferion da a gwersi posibl i Gymru. Cynhaliwyd cyfweliadau ffôn ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol yn y sectorau addysg a chyflogaeth yng Nghymru ac ar lefel ehangach yn y DU a'r UE. Datblygwyd profforma cyfweliad i

sicrhau cysondeb ar gyfer y cam hwn o'r adolygiad. Cafodd y broses ei harwain gan fframwaith samplu hefyd i sicrhau amrywiaeth eang o safbwyntiau gan bob grŵp o randdeiliaid.

**Canfyddiadau Allweddol**

**Ymwybyddiaeth o FfCChC a'i nodau**

Yn gyffredinol, mae gan randdeiliaid lefelau da o ymwybyddiaeth o FfCChC a'i nodau. I lawer o randdeiliaid yn y sectorau addysg a chyflogaeth, mae gan FfCChC swyddogaeth ymarferol fel adnodd gwybodaeth sy'n darparu dealltwriaeth gyffredin, ystyrlon o bwysigrwydd cymwysterau ac sy'n dangos strwythur y system gymwysterau yng Nghymru yn effeithiol. Credir hefyd fod gan y fframwaith gysylltiad clir â fframweithiau sy'n canolbwyntio ar sectorau penodol a fframweithiau eraill yn y DU a thu hwnt, sy'n galluogi dilyniant a symudedd posibl ar gyfer dysgwyr ac yn hyrwyddo dysgu gydol oes.

Mae tystiolaeth sy'n deillio o adolygiadau o enghreifftiau rhyngwladol o fframweithiau cymwysterau cenedlaethol yn dangos bod ganddynt nodau a swyddogaethau strategol tebyg i FfCChC. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys defnyddio fframweithiau cymwysterau cenedlaethol i ddarparu gwybodaeth, ehangu cyfranogiad, sicrhau bod cymwysterau'n hyblyg ac yn drosglwyddadwy, yn ogystal â sicrhau cysylltiad ag amcanion ehangach systemau addysg a hyfforddiant cenedlaethol sy'n hyrwyddo cynhwysedd a dysgu gydol oes. Yn yr un modd â FfCChC, mae'r fframweithiau hyn hefyd wedi cefnogi system gyffredin o gredydau sy'n seiliedig ar amser dysgu a lefelau cymwysterau tybiannol, gan gynrychioli lefelau cymhlethdod gwahanol o safbwynt cynnwys dysgu a sgiliau'r cymhwyster.

**Ymgysylltu â FfCChC**

Mae FfCChC wedi'i sefydlu'n gadarn mewn rhai sectorau, yn enwedig addysg uwch (AU) a dysgu oedolion a'r gymuned lle mae ganddo gysylltiad agos â chanlyniadau cymwysterau a safonau sefydliadol. Fodd bynnag, roedd sectorau eraill yn ymgysylltu llai â FfCChC, ac roedd hyn yn

dibynnu mwy ar anghenion sefydliadol, lefelau o ymwybyddiaeth a phrosiectau sectorau penodol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhanddeiliaid strategol yn credu bod lefelau ymgysylltu â FfCChC yn isel ymysg cyflogwyr a'r rhan fwyaf o ddysgwyr. Roedd y rhanddeiliaid hyn hefyd o'r farn nad yw FfCChC yn ysgogi polisïau yng Nghymru ar hyn o bryd a bod angen, felly, cynyddu ymwybyddiaeth o FfCChC yn y sectorau addysg a chyflogaeth.

**Cryfderau FfCChC**

Yn ôl rhanddeiliaid o'r holl sectorau, un o brif effeithiau FfCChC yw'r ffaith ei fod yn cynyddu cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol a dysgu anffurfiol drwy'r piler Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd. Credir bod hyn yn cael effaith bwysig iawn ar grwpiau o ddysgwyr dan anfantais ac yn cysylltu'n agos â strategaethau dysgu gydol oes a threchu tlodi ehangach Llywodraeth Cymru. Credir bod FfCChC wedi helpu i ddarparu a mapio'r gydnabyddiaeth hon, codi dyheadau dysgwyr a hyrwyddo cyfleoedd dilyniant.

Roedd cyfraniad FfCChC at hwyluso cydnabyddiaeth o ddarpariaeth y tu allan i'r brif ffrwd yn gysylltiedig â'r effaith hon, gan alluogi darparwyr i ddatblygu cynigion cwricwlwm arloesol ar gyfer dysgwyr sydd ar ymylon addysg a hyfforddiant ffurfiol. Roedd y rhanddeiliaid hefyd yn credu bod y broses o ariannu prosiectau penodol gan FfCChC, Llywodraeth Cymru a'r UE wedi annog amrywiaeth ehangach o sefydliadau i ddatblygu rhagor o gysondeb a chyfleoedd drwy'r llwybr dysgu gydol oes. Mae'r prosiectau penodol hyn wedi arwain at fanteision ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys datblygu sgiliau, ennill cymwysterau a chydnabod dysgu blaenorol.

Dywedodd llawer o'r rhanddeiliaid fod FfCChC yn cefnogi “system gyffredin” o gredydau sy'n golygu ei bod yn haws mynegi a chyfleu cyflawniad ar draws sectorau, lefelau ac ardaloedd daearyddol. Credir bod y disgrifiadau o lefelau wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu cysondeb ac ymddiriedaeth rhwng rhanddeiliaid yn y sector addysg. Mae'r

cysondeb hwn wedi helpu dysgwyr i ddeall yn glir beth yw gwerth eu cymwysterau a mapio'r llwybrau dysgu a dilyniant amrywiol, gan gynnig hyblygrwydd a dewis ychwanegol ar gyfer llwybrau dysgu.

Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at y manteision dysgu ac economaidd sy'n deillio o ddefnyddio FfCChC fel adnodd i osgoi dyblygu dysgu a mynd i'r afael ag achosion o ddysgwyr yn rhoi'r gorau i astudio. Nodwyd bod hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn sectorau sydd â gweithlu symudol iawn fel y sector gofal iechyd, y diwydiannau creadigol a diwylliannol a gwasanaethau carchar. Nodwyd hefyd fod FfCChC yn sicrhau manteision drwy hyrwyddo elfennau cyffredin digonol drwy fod yn gyson â Fframweithiau eraill yn y DU ac Ewrop, gan wella symudedd dysgwyr, eglurder gwybodaeth, cyfleoedd dilyniant a sicrwydd ansawdd.

**Gwendidau FfCChC**

Fodd bynnag, roedd llawer o'r rhanddeiliaid o'r farn nad oedd FfCChC yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol i'r graddau a obeithiwyd yn y sectorau addysg a chyflogaeth, er gwaethaf ei amcanion a'i ddyheadau. Amlinellodd y rhanddeiliaid resymau amrywiol am y ffaith nad yw'r sectorau yn defnyddio neu'n sefydlu'r Fframwaith. Roedd y rhesymau yn cynnwys diffyg cefnogaeth strategol lefel uwch gan Lywodraeth Cymru, cymhlethdodau ymddangosiadol yn ymwneud â'r iaith a'r canllawiau a ddefnyddir yn ystod y cam gweithredu, lefelau'r fiwrocratiaeth a'r gwaith papur ar gyfer y broses cydnabod, a phroblemau'n ymwneud ag amser ac adnoddau i asesu dysgu drwy brofiad, yn enwedig ar gyfer cyflogwyr.

Ar lefel ehangach, nododd y rhanddeiliaid mai'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCCh) (sy'n rhan annatod o FfCChC) yw'r prif fframwaith ym marn cyflogwyr yn y DU, sefydliadau dyfarnu a Chynghorau Sgiliau Sector. Teimlwyd hefyd fod dysgwyr a chyflogwyr yn canolbwyntio mwy ar gymwysterau llawn ar hyn o bryd, gan danseilio ymgysylltu posibl â FfCChC.

Yn ôl rhai rhanddeiliaid, mae FfCChC yn awgrymu bod pob cymhwyster yn gyfwerth a bod llwybrau dilyniant di-dor ar gael nad ydynt yn bodoli mewn gwirionedd. O ganlyniad, roedd y rhanddeiliaid hyn o'r farn nad yw'r cysylltiad rhwng y tri philer wedi gweithio cystal ag y dylasai o anghenraid oherwydd y diffyg eglurder hwn.

Adlewyrchir y materion hyn yn rhai o werthusiadau Fframweithiau Cymwysterau a Chredydau rhyngwladol eraill, ac mae'n amlwg bod problemau cyffredin yn effeithio ar y gwaith o'u cynllunio a'u gweithredu, gan gynnwys y ffaith nad ydynt yn hawdd eu defnyddio, a bod dealltwriaeth rhanddeiliaid ohonynt, a'u cyswllt â nhw, yn wael yn gyffredinol; diffyg perthnasedd i rai cyflogwyr a diwydiannau; diffyg sefydlu cynllun a datblygiad y rhaglenni dysgu a'r cymwysterau a gynigir; a gwendidau cysylltu ar draws y sectorau.

**Rôl FfCChC yn y dyfodol**

Mae'r mwyafrif llethol o randdeiliaid o bob sector am weld FfCChC yn parhau ac yn cael ei sefydlu wrth wraidd y broses barhaol o gynllunio, darparu a defnyddio cymwysterau yng Nghymru. I'r rhanddeiliaid hyn, mae FfCChC yn darparu sylfaen, cynhwysedd a chysylltiadau â nodau ehangach i hyrwyddo dysgu a dilyniant gydol oes. Cyfeiriodd rhanddeiliaid ar draws y sectorau at yr ymwahanu presennol, a fydd yn parhau o bosibl, rhwng systemau addysg Cymru a Lloegr fel cyfle i ddefnyddio FfCChC i fynegi'n glir y dirwedd gymwysterau yng Nghymru wrth i'w hunaniaeth a'i system addysg ddod yn fwy unigryw.

Er bod cefnogaeth gref i barhad FfCChC, roedd rhanddeiliaid ar draws y sectorau yn credu bod ei broffil isel a'r diffyg buddsoddiad strategol ar hyn o bryd yn cyfyngu ar ei effaith a'i ddefnydd posibl ym mhob sector yng Nghymru. Roedd rhai rhanddeiliaid yn credu y dylai Llywodraeth Cymru drin FfCChC fel polisi blaenllaw a buddsoddi ynddo. Awgrymwyd hefyd y byddai'n bosibl sefydlu a prif ffrydio FfCChC yn well drwy sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn well â meysydd polisi eraill Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, roedd rhai rhanddeiliaid am weld cysylltiadau cliriach â'r FfCCh ac â

fframweithiau a ddefnyddir yng ngweddill y DU.

**Cynllun a llywodraethu**

Roedd y mwyafrif llethol o randdeiliaid yn gymharol fodlon â chynllun a chynnwys FfCChC. Roeddent yn credu bod hyblygrwydd ac addasrwydd y Fframwaith yn gryfder cyfredol allweddol ac yn sylfaen i adeiladu arni. Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella yn cynnwys defnyddio FfCChC fel adnodd i osgoi dyblygu dysgu a'i ddefnyddio i helpu i gynllunio a chreu cymwysterau newydd, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw gymwysterau a gynlluniwyd ar gyfer Cymru yn unig.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn credu y dylai Llywodraeth Cymru barhau i reoli FfCChC. Fodd bynnag, roedd y rhanddeiliaid hyn, a oedd yn cynrychioli safbwyntiau o bob sector, yn credu y dylid ymestyn trefniadau llywodraethu a pharhau i gynnwys CCAUC yn ogystal â Gyrfa Cymru, Cymwysterau Cymru a rhanddeiliaid eraill fel cynrychiolwyr cyflogwyr. Nodwyd bod ffurfio grŵp strategol a gweithredol yn debyg i'r Fforwm Cytundeb Cyffredin yn hanfodol i helpu i hyrwyddo a gweithredu FfCChC yn y dyfodol.

Roedd rhai'n credu bod model llywodraethu'r Alban, sef sefydlu ymddiriedolaeth addysgol elusennol gyda bwrdd partneriaeth sy'n cynnwys Cymdeithas Colegau'r Alban, Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yr Alban, Awdurdod Cymwysterau'r Alban (y Rheoleiddiwr) a Phrifysgolion yr Alban, yn enghraifft effeithiol o ddull gweithredu pwrpasol, eang ar sail partneriaeth.

Mae safbwyntiau'r rhanddeiliaid hyn yn awgrymu bod y cyfeiriad y maent am ei weld ar gyfer FfCChC yn y dyfodol yn gysylltiedig â nodau FfCCh 'gweithredol'. Ei brif nodau yw darparu map iaith a llwybr i'w gwneud yn haws i ddysgwyr, rhieni, gweithwyr addysg proffesiynol a chyflogwyr ddeall llwybrau datblygu rhwng cymwysterau a gofynion cymharol cymwysterau. Gall FfCCh hefyd ddarparu system gyffredin i'w ddefnyddio i wella cysondeb ac atebolrwydd trosglwyddo credydau fel dull o achredu dysgu blaenorol a dysgu anffurfiol.

**Argymhellion**

1. Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i'r lefelau uchel o gefnogaeth ymysg rhanddeiliaid ar gyfer parhau â FfCChC wrth ddatblygu strategaethau yn y dyfodol ar gyfer cymwysterau a dysgu.
2. Wrth ddatblygu FfCChC yn y dyfodol, dylid canolbwyntio ar nodau ymarferol, cyraeddadwy a mesuradwy er mwyn ei gynllunio a'i weithredu. Dylai'r rhain fod yn gysylltiedig â nodau ac amcanion FfCCh 'gweithredol', gan gefnogi system gyffredin ar gyfer cyflawniad a dilyniant dysgwyr.
3. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio FfCChC i fynegi'r dirwedd gymwysterau newidiol yng Nghymru a chefnogi'r gwaith o gynllunio a defnyddio cymwysterau newydd ar gyfer Cymru yn unig.
4. Dylai rôl a swyddogaethau FfCChC yn y dyfodol fod yn rhan amlwg o drafodaethau ymysg rhanddeiliaid allweddol sydd ynghlwm â rheolaeth cymwysterau a Bwrdd Cynghori Cymwysterau Cymru wrth weithredu canlyniadau'r Adolygiad o Gymwysterau.
5. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o gymorth uwch ar lefel strategol ar gyfer FfCChC er mwyn codi ei broffil a'i ddefnydd ledled y llywodraeth a'r sector addysg a hyfforddiant ehangach. Dylid cysylltu'r broses hon â'r pedwar argymhelliad uchod.
6. Dylai'r broses hon gael ei chefnogi hefyd gan strategaeth gyfathrebu a marchnata effeithiol a chyson ar gyfer FfCChC.
7. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r manteision a'r heriau posibl yn sgil cysylltiad agosach rhwng FfCChC â'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (EQF) ac adnoddau addysgol eraill yr UE fel y System Gredydau Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (ECVET), y Fframwaith Cyfeirio Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd (EQARF), Sgiliau/Cymwyseddau, Cymwysterau a

Galwedigaethau Ewropeaidd (ESCO) a chydnabod dysgu anffurfiol a dysgu heb fod yn ffurfiol.

8. Dylai'r broses hon gael ei chefnogi gan ymrwymiad i barhau i weithio gyda gwledydd eraill y DU i sicrhau bod safonau cyffredin yn cael eu cynnal a bod y gwaith yn gydnaws.
9. Dylid sefydlu grŵp strategol a gweithredol yn debyg i'r Fforwm Cytundeb Cyffredin er mwyn sicrhau bod FfCChC yn cael ei ddatblygu, ei hyrwyddo a'i weithredu'n strategol yn fwy effeithiol yn unol â chanfyddiadau'r adolygiad hwn a gofynion polisi yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys Llywodraeth Cymru a CCAUC yn ogystal â Chymwysterau Cymru, Gyrfa Cymru, Colegau Cymru, Sefydliadau Dyfarnu a rhanddeiliaid eraill fel cynrychiolwyr cyflogwyr.
10. Er mwyn datblygu FfCChC yn y dyfodol, bydd angen canolbwyntio mwy ar werthuso i ddangos sut mae FfCChC yn cyflawni ei amcanion.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Sara James
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6812
sara.james@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 17 Gorffennaf 2014
ISBN: 978-1-4734-1782-3
© Hawlfraint y Goron 2014